



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**36 Trinity Ave**

**Llandudno**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

02/05/2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## 36 Trinity Ave

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleuedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">19 Rhagfyr 2022</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Trinity Avenue yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael ac yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu safbwyntiau'n rhydd, ac y gwrandewir arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo annibyniaeth; maent yn amlinellu diddordebau, anghenion a nodau'r bobl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Mae'r bobl yn dewis yr hyn y maent am ei wneud, ac mae'r staff yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol, fel mynd ar wyliau ac ymweld â llefydd o ddiddordeb.

Mae'r cartref yn cynnwys ardaloedd cymunedol fel y lolfa a'r ystafell fwyta ac ardal i eistedd allan yn yr haul. Mae'r bobl yn hapus gyda'u hystafelloedd gwely, sy'n adlewyrchu eu personoliaethau, eu dewisiadau, a'u diddordebau unigol. Mae'r darparwr wedi gwneud newidiadau i'r cartref er mwyn bodloni dymuniadau a diwallu anghenion yr unigolion, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol iddynt.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi i gyflawni eu rolau. Maent yn mwynhau eu gwaith ac wedi meithrin cydberthnasau agos sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth â'r bobl maent yn eu cefnogi. Mae'r darparwr wedi sefydlu systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir o ansawdd, a bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn ddiogel.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Maent yn dewis sut maent am dreulio eu diwrnod, sut maent am addurno eu hystafell gyda'u heitemau personol, a pha hobiau a diddordebau y maent am eu dilyn. Maent yn dewis gyda phwy y maent am dreulio eu hamser a sut maent am gael eu prydau bwyd. Caiff gwybodaeth am ddewisiadau ei choladu wrth dderbyn unigolion i'r cartref fel bod y staff yn gwybod beth sy'n eu gwneud yn hapus. Gwrandewir ar safbwyntiau'r bobl a chânt eu parchu. Mae'r gwasanaeth yn eirioli ar ran y bobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un buddiannau a hawliau lles â'u cyfoedion.

Mae'r bobl yn hapus ac yn gwneud pethau sy'n eu cadw'n iach. Mae'r gweithgareddau yn unigryw i'r unigolyn yn dibynnu ar yr hyn y mae'n ei fwynhau, a beth yw ei nodau. Mae'r bobl yn gwneud ymarfer corff a phethau eraill er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Mae rhai o'r bobl yn dilyn cyngor ar fwyta'n iach. Caiff y bobl eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau a'u priodweddau i gyfrannu at y gwaith o redeg y gwasanaeth; maent yn teimlo eu bod yn perthyn wrth iddynt gymryd rhan. Mae'r bobl yn falch eu bod yn cynyddu eu hannibyniaeth, drwy wneud eu byrbrydau a'u diodydd eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a helpu i siopa am fwyd.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu niwed arall. Mae hyfforddiant ar ddiogelu yn un o'r amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant a gynhelir ar gyfer y staff, ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w dilyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis ac yn siarad â phob un o'r bobl sy'n byw yno er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gofal a ddarperir. Dywedodd y bobl wrthym y byddent bob amser yn siarad â'r rheolwr pe bai ganddynt unrhyw broblemau yn y cartref. Mae'r bobl yn gyfforddus ac yn teimlo y gallent fynegi unrhyw bryderon pe bai angen.

Mae'r bobl yn mwynhau eu cysylltiadau â'u cymuned, eu cydberthnasau â'u ffrindiau yn y cartref a'r tu allan iddo, a'u cydberthnasau â'u teulu. Cânt eu cefnogi i gymdeithasu, cynnal a meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Maent yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac yn parchu gwahaniaethau ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y cartref wedi cyd-fyw â'i gilydd ers amser hir, ac wedi gwneud ffrindiau da. Er bod y bobl yn dilyn eu diddordebau eu hunain, maent hefyd yn mynd ar deithiau allan gyda'i gilydd ar fws mini'r gwasanaeth. Caiff lluniau o ddigwyddiadau amrywiol a manau y mae'r bobl wedi ymweld â nhw eu harddangos. Caiff cydberthnasau teuluol eu cefnogi hefyd. Mae'r bobl yn defnyddio eu cymuned leol i ymweld â siopau a'r traeth lleol; maent yn gyfarwydd â'u hardal eu hunain.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau a gwybodaeth cyn cytuno y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion unigolyn. Gwelsom fod yr asesiadau yn cynnwys safbwyntiau pobl eraill sy'n rhan o'r broses gan gynnwys perthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r dogfennau derbyn yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn y cartref a'r amgylchedd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff hyfforddiant ychwanegol ei drefnu os oes angen, er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o anghenion yr unigolyn.

Caiff cynlluniau personol y bobl eu cadw'n gyfredol gan eu bod yn cael eu hadolygu bob tri mis. Bob dydd, caiff gwybodaeth ei throsglwyddo fel bod y staff bob amser yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i anghenion y bobl pan fyddant yn digwydd. Er nad yw'r adolygiadau'n nodi i ba raddau y caiff canlyniadau'r bobl eu cyflawni bob mis ar hyn o bryd, mae'r dyddiaduron dyddiol yn dangos sut mae'r staff yn cefnogi'r bobl i weithio tuag at gyflawni eu nodau. Gwelsom fod canlyniadau unigol y bobl yn amrywio ac yn cynnwys gwella eu ffitrwydd, cynnal eu delwedd bersonol, mynd ar wyliau dramor a dilyn eu hoff chwaraeon. Cynhelir asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau dyddiol fel bod modd eu cynnal yn ddiogel, a chaiff pob asesiad risg ei adolygu bob tri mis.

Mae'r bobl y cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt gan fod y cynlluniau personol yn gynhwysfawr. Mae'r cofnodion yn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, sut mae am gael ei gefnogi, ei hanes a'i deulu, ei hobiau a'i ddi-ddordebau. Gwelsom fod y cymorth a roddir yn adlewyrchu dyheadau'r bobl i fod yn fwy annibynnol ac i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Mae'r staff yn eu cynnwys yn y broses o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, drwy ofyn iddynt helpu gyda'r ailgylchu, dewis décor a dodrefn ar gyfer y cartref, a siopa am fwyd. Mae'r bobl yn hapus yn byw yma. Dywedodd un unigolyn, "*They have birthday parties here and sometimes I have a shandy*". Dywedodd, "*I go everywhere, see the photos on my wall of all the places I've been to*". Roedd yr unigolyn yn gwybod y byddai llawr newydd yn cael ei osod yn ei ystafell yn fuan, ac y byddai'n mynd ar wyliau i westy nes bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Mae'r staff cymorth yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Gwelsom fod y dyddiaduron dyddiol yn cofnodi diwrnod y bobl, yr hyn y maent yn ei wneud a sut maent yn teimlo. Trefnir apwyntiadau a chaiff y bobl gymorth i'w mynychu. Gofynnir am fewnbwn gan wasanaethau iechyd gwahanol pan fo angen er mwyn hybu llesiant y bobl a chynnal eu hannibyniaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym, "*I trust staff here. They take me to see the doctor and hospital appointments*".

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gofynnir am gyngor proffesiynol gan therapyddion galwedigaethol er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn gallu mynd i bob rhan o'r adeilad. Gofynnodd un unigolyn am gael cawod en suite, felly cafodd addasiadau eu gwneud i fodloni ei gais ac mae ganddo bellach gawod o'r fath. Mae'r bobl sy'n ffafrio gwelyau dwbl wedi cael y gwelyau hynny; mae eu hystafelloedd wedi'u dodrefnu yn unol â'u dymuniadau. Dywedodd un unigolyn wrthym *"I love this house, and the people, and I love my room. There is nothing I need"*. Gall y bobl ddefnyddio'r gegin yn annibynnol os byddant yn dymuno gwneud diodydd a byrbrydau i'w hunain; mae un unigolyn yn hoffi pobi cacennau. Mae digon o le i bawb eistedd o amgylch y bwrdd bwyd neu yn y lolfa lle mae teledu wedi'i gysylltu â'r rhyngwyd. Yn ystod un o'i ymweliadau bob tri mis â'r cartref, nododd yr Unigolyn Cyfrifol fod angen gosod cegin newydd. Gwelsom fod cynlluniau i wneud hyn yn fuan. Roedd arogl amhleserus yn un ardal o'r cartref ac mae llawr newydd yn cael ei osod er mwyn datrys y mater hwn. Mae'r lolfa wedi cael ei hailaddurno yn ddiweddar ac mae llenni newydd wedi cael eu gosod; mae rheilen ganllaw newydd wedi cael ei gosod ar y grisiau. Mae hyn yn dangos bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod yn gyfforddus i'r bobl.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom fod yr holl wiriadau diogelwch yn gyfredol, fel yr archwiliadau o wifrau trydanol, nwy, dŵr, a diogelwch tân, gan gynnwys y larymau, y goleuadau argyfwng a'r cyfarpar. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gan gynnwys ymarfer gweithdrefnau gwagio'r adeilad. Ym mis Mawrth 2024, trefnodd y gwasanaeth ymweliad ystadau â phwyslais penodol i archwilio'r adeilad a chofnodi unrhyw waith yr oedd angen ei wneud. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch chwarterol yn cael eu cwblhau sy'n edrych ar ardaloedd fel y coridorau, y grisiau, yr ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r toiledau, y gegin, y cyfarpar, cymorth cyntaf a sut y caiff sylweddau niweidiol eu storio, ac yn archwilio'r profion diogelwch a gofnodwyd. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar iechyd a diogelwch ac mae'n rhaid iddynt ddarllen yr asesiadau risg iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith sy'n helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Ceir lefelau gwahanol o oruchwyliaeth, gan gynnwys archwiliadau a gaiff eu cynnal yn rheolaidd gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis. Mae'r rheolwr yn cwrdd â'r Unigolyn Cyfrifol yn rheolaidd i rannu gwybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn rhedeg a'i gynnydd tuag at gyflawni'r cynlluniau gweithredu.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda drwy ei ymweliadau rheolaidd â'r cartref i gwblhau ei wiriadau ei hun. Mae'n archwilio'r amgylchedd, ansawdd y broses o gadw cofnodion a gweithdrefnau eraill, ac yn ceisio barn y bobl sy'n byw yno. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn ddiogel a'i fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n llunio cynlluniau gweithredu, yn argymhell newidiadau ac yn monitro cynnydd tuag at gyflawni camau gweithredu blaenorol. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gynnal ddwywaith y flwyddyn, ac mae'r adroddiadau cysylltiedig yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a'i fod yn hefyd yn nodi lle y gellid gwneud gwelliannau.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod niferoedd priodol o staff addas ar ddyletswydd sydd wedi'u hyfforddi'n dda ar gyfer eu rolau. Gwelsom fod gweithdrefnau recriwtio a fetio effeithiol a diogel yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau bod y staff yn addas ar gyfer eu rolau. Cyn dechrau'r rôl, mae pob aelod o'r staff yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol helaeth, sy'n ymdrin â phynciau penodol sy'n berthnasol i anghenion y bobl. Telir y staff i gwblhau eu hyfforddiant ac roedd y cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo mai'r hyfforddiant a ddarperir gan y gwasanaeth yw'r hyfforddiant gorau y maent wedi'i gael; maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn mwynhau'r sesiynau goruchwyllo a'r arfarniadau rheolaidd. Mae pob aelod o'r staff yn gwerthfawrogi'r rheolwr ac yn canmol ei dull gweithredu ymarferol. Mae pob un ohonynt yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr ac maent yn hyderus y gallant godi unrhyw faterion yn uniongyrchol â hi. Dywedodd y staff eu bod yn cyd-dynnu'n dda, yn gweithio'n dda fel tîm ac yn parchu ei gilydd. Dywedodd un aelod o'r staff, *'it feels like family'*. Mae'r staff wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu harian eu hunain mor ddiogel â phosibl. Caiff cofnodion da eu cadw o wariant, gan gynnwys derbyniadau a thystiolaeth arall o bethau a brynwyd. Caiff gwiriadau dyddiol eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu gweithgareddau ariannol y bobl yn gywir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn archwilio'r cyllid a'r cofnodion pan fydd yn ymweld â'r cartref, a gwelsom fod yr argymhellion diweddar a wnaed ynglŷn â gwella'r broses o gadw cofnodion wedi cael eu dilyn.



### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
44	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff pob rhan o'r safle ei chadw'n lân. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd y cartref yn lân, ond mae angen gwella'r trefniadau glanhau sydd ar waith yn un ardal benodol, neu osod llawr newydd yn yr ardal hon.	Cyflawnwyd
36	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol manwl ar iechyd meddwl.	Cyflawnwyd

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 11/07/2024**